DIWRNOD YM MYWYD
DELYTH ROBERTS CREFFTAU CARIAD MAM A CHLWB GWAWR GRWST

MAE DELYTH ROBERTS a'i gwr Eifion yn briod ers tair blynedd, yn rhieni i Gethin Rhys (2) ac yn disgwyl parsel bach arbennig arall ddiwedd Tachwedd eleni. Yn wreiddiol o Lanelwy Dyffryn Clwyd, fe symudodd Delyth i Lanrwst wedi iddi gael swydd fel athrawes yn ysgol Bro Gwydir. Ac wedi cyfnod yn dysgu fe gyfarfu â'i gŵr, a oedd yn fecanic Mercedes yng nghyffordd Llandudno. Mae'r teulu bach yn byw ar gyrion y dref ac yn ogystal â nifer fawr o ddiddordebau eraill, ynghyd â'i swydd dysgu, mae Delyth yn rhedeg ei chwmni ei hun, *Crefftau Cariad Mam*. Mae'r crefftau yn cynnwys pob math o drugareddau ar gyfer babis. Mae ei blancedi *Tagi Teimlo*, sef *fleece* gyda rhubanau gwnïo o amgylch yr ymyl, yn boblogaidd iawn. Yn raddol, cychwynnodd Delyth hel ei phac a chynnal stondinau mewn ffeiriau a mwy a mwy yn gofyn am ei nwyddau. Mae'n cyfaddef bod y rhan fwyaf o'i min nosau rŵan yn mynd i greu!

"Ma'r diwrnod yn dechrau acw tua 6.30 y bore. Ma Geth reit amal 'di glanio yng nghanol Eifs a finna yng nghanol y nos neu wedi dod i'r gwely at dad tra dwi'n cael cawod. Ma Geth yn mwynhau gwylio teletubbies Cymraeg, tra mae dad yn newid, a finna yn sychu fy ngwallt, ac yna mae Geth yn cael ei newid cyn mentro lawr i gael brecwast."

"Ma Geth wrth ei fodd efo brecwast ac yn llwgu ben bore! Dwi 'di *investio* mewn peiriant gwneud bara, gan fod pris torth mor ddrud rŵan, felly mae 'na ogla bara ffres bendigedig yn y bore. Gall fynd yn eitha hectig weithiau gan fo rhaid paratoi bocs bwyd i fi ac Eifion a phacio bag Geth i fynd i'r feithrinfa. Ond ma 'na dal 'chydig o amser i chwara cyn i Dad fynd am ei waith am 8 y bore. Erbyn hyn mae'n ddefod foreol codi llaw yn y ffenest ac Eifs yn gorfod rhoi bib-bib a fflachio'r goleuadau *hazard* wrth basio'r ffenest lle mae Geth yn sefyll i ddeud 'Ta-ta!'"

"Erbyn hyn mae'n amser inni feddwl am ei chychwyn hi. Mae Geth yn brwsio'i ddannadd a rhoi bwyd i pws, ac yna dwi'n cael cyfle i hel fy mhac i'r ysgol, a llwytho'r goets er mwyn cerddad i'r feithrinfa erbyn 8.30, gan orfod codi llaw ar bob lori, tractor a jac codi baw! Wedi ffarwelio gyda Geth dwi'n ei throi hi am yr ysgol sydd ddim ond lawr stryd o'r feithrinfa, cyfleus iawn! Rhaid cyfaddef fy mod yn reit ecseited gyda'r cyfnod sylfaen newydd."

Delyth, Eifion a Gethin

"Mae'n amser cinio cyn imi droi rownd a dyma gyfle i ruthro o le i le yn gwneud jobsys fel talu biliau, mynd i'r banc, prynu stoc o ffrwythau o'r farchnad ar y sgwâr (ma Geth yn bwyta andros o lot o ffrwythau - siŵr mai mwnci oedd o i fod - costio ffortiwn i mi!) a chwilio am fargeinion yn siop Barnados wych Llanrwst. "

"Ar ôl ysgol byddaf yn rhuthro i nôl Geth, ac fel arfer yn cael ffrae ganddo am gyrraedd i'w nôl a hithau'n amser te yn y feithrinfa. Diolch i'r drefn, mae wedi setlo'n dda ac yn meddwl y byd o'r genod sy'n ei warchod. Mae min nosau yn hedfan ac felly mae'r gair rhuthro yn bwysig. Adre i wneud te cyn i Eifion gyrraedd, tua 5.30yh. Erbyn inni orffen gwledda, golchi llestri, chwara efo Geth, darllen stori neu wylio DVD Tomos y Tanc yn Gymraeg, a mynd a fo i'w wely erbyn tua 7.30, ma rhywun eisiau disgyn yn lwmp ar y soffa. Ond, yn anffodus, mae'n rhaid cario 'mlaen. Clirio 'chydig ar y teganau cyn setlo i lawr am y noson efo panad i greu nwyddau *Crefftau Cariad Mam* neu chwilio am fargeinion ar e-bay!

"Does dim amser i ddiddordebau rŵan, dim nosweithiau i'w rhoi i ddrama, i ganu nac i ddawnsio! Dwi wedi bod yn gwneud gwaith llaw erioed ac roeddwn yn dal i botsian gyda'r nos pan ddaeth Geth. Mi wnes flanced *fleece* iddo gyda rhubanau o amgylch yr ymyl pan oedd yn fychan iawn, ac roedd wrth ei fodd gyda hi. Gofynnodd nifer o ffrindiau imi wneud rhai iddynt a phenderfynais ddechrau eu hysbysebu - 'Tagi Teimlo'. Roedd pobl yn dotio eu bod yn lliwgar a babis yn mwynhau teimlo'r rhubanau a gweld y lliwiau.

"Yn ystod y gaeaf d'wetha dyma gychwyn cwrs busnes i ferched, a phenderfynu y buasai gwneud trugareddau ar gyfer babanod yn *sideline* bach ac yn ddiddordeb newydd, gan fod dim amser i'r hen rai! A dyna pryd y ganwyd *Crefftau Cariad Mam*. Cychwynnais arbrofi mewn llosgi pren i greu anrhegion bychain i fabis a phlant, a gweld bwlch yn y farchnad Gymraeg. Mae 'na ddigonedd o anrhegion babis yn y Saesneg. Mae'r busnes yn llwyddiannus iawn erbyn hyn, a dwi wedi cael archebion gan siopau, sydd yn grêt."

"Tydi rhywun ddim yn cael amser i fynd allan llawer wrth fagu plant, ond unwaith y mis, ar nos Wener, dwi'n cwrdd y genod yng Nghlwb Gwawr Grwst. Mae'n glwb reit ifanc ac wedi dechrau ers blwyddyn, ond rydan ni wedi cael nifer o nosweithiau diddorol gan gynnwys swper, noson caws a gwin, noson gemwaith, ioga a bowlio deg.

"Dwi'n weithgar ym mywyd allgyrsiol yr ysgol; e.e. cydlynu prosiect Comeniws - prosiect sy'n cysylltu ysgolion cynradd ar draws Ewrop er mwyn hybu dealltwriaeth plant o'u diwylliant a'u mamiaith. Yn ystod fy 5 mlynedd gyntaf yn dysgu ces i'r cyfle i ymweld ag ysgolion yn Sweden, Yr Almaen, Portiwgal, Yr Eidal a gogledd Iwerddon a threfnu ymweliad i'r Ewropeaid yn Llanrwst! Hefyd dwi'n Gadeirydd 'Cymdeithas Ffrindiau Bro Gwydir' ac yn sgil hynny yn hel arian i'r ysgol."

"Mi fyddaf yn mynd am y gwely yn syth wedi i'r dwylo ddechrau brifo, ond yn gynt y dyddiau yma gan fod beichiogrwydd yn flinedig iawn. Erbyn hyn dwi'n edrych mlaen at 9 mis i ffwrdd o'r gwaith, yn enwedig gan fod cymaint o'm ffrindiau i'n disgwyl eu hail fabis tua'r un pryd! Fydd o'n grêt! Mi wnes i fwynhau pob eiliad i ffwrdd gyda Geth, gan gynnwys y clytiau drewllyd a'r nosweithiau di-gwsg!."

Bethan a'i chriw yn saethu paent

Hwyl a Sbri

Delyth (ar y chwith) gyda'i chyd-lanhawyr

Rachel yn hardd fel priodferch!

Penwythnosau Plu!

Dechrau'r flwyddyn eleni gwariodd Colleen Rooney (gwraig Wayne) £30,000 (neu £60,000 yn ôl rhai papurau) ar ei phenwythnos plu ei hun ym Miami! Mae'r ffenomen yn tyfu a thyfu yng Nghymru hefyd. Ond beth sy'n mynd ymlaen ynddyn nhw?

Fe holon ni dair yn eu hugeiniau am eu profiadau nhw:

Sawl penwythnos plu maen nhw wedi bod arnyn nhw yn y ddwy flynedd ddiwetha?
Bethan Jones, Llanuwchllyn: 12; Delyth Williams, Caerdydd: 9, Rachel Bidder, Gorseinon: 5.
Meddai Bethan 'Heddiw dyw pobl ddim yn hapus gydag un dathliad – rhaid cael penwythnos plu i ffwrdd a noson iâr leol cyn y diwrnod mawr.'

Ble maen nhw wedi bod?
Delyth: o Gaeredin i Drefdraeth; Rachel: o Dyddewi i Asturias yn Sbaen; Bethan: o dafarn yr Eryrod, Llanuwchllyn i Blacpwl.

Oes themâu i'r penwythnosau?
Delyth: Oes, Moulin Rouge, glanahawyr, achubwyr bywyd …
Rachel: Weithiau, e.e ysgrifenyddesau (ond dwyf i ddim yn rhy hoff o hyn)
Bethan: Na, rhai sâl ydan ni am themâu

Beth ydych chi'n ei wneud ar y boreau Sadwrn?
Amrywiaeth o weithgareddau i gael hwyl, fel ymweld â Longleat, mynd i rasys Caer; dysgu gwneud coctels; siopa (wrth gwrs); chwarae *paint ball*, cael triniaethau harddwch, gwersi dawnsio polyn … a chyda'r nos pryd o fwyd blasus a diod neu ddau … neu dri …

Faint maen nhw'n ei gostio ar gyfartaledd?
Pob un yn gytûn: £250 rhwng llety, bwyd, diod a mynd allan.

Unrhyw sylw printiadwy?
Rachel: 'Fe fwynheais i fy mhenwythnos i yn Nhyddewi – doedd dim rhaid i fi dalu am unrhyw beth!'
Bethan: 'Mae gormod o ffrindiau – mae'n anodd dweud 'na!'
Delyth: 'Fel arfer mae'r morwynion priodas yn trefnu syrpreis yn ddiarwybod i'r briodferch, fel mygydau / bathodynnau â llun y priodfab lwcus arnyn nhw!'

Delyth, Bethan a Rachel: 'Maen nhw'n lot o sbort!'